Ysgol Gymraeg Blaendulais

Hysbysiad Preifatrwydd

Sut rydym yn defnyddio gwybodaeth gan rieni neu warcheidwaid

Er mwyn gallu'ch cefnogi chi'n effeithiol fel rhiant yn Ysgol Gymraeg Blaendulais, bydd gofyn i ni gasglu amrywiaeth o ddata personol. Mae'r Hysbysiad Preifatrwydd hwn yn amlinellu'r data rydym yn ei gasglu a sut caiff ei brosesu gan yr ysgol yn unol â'r Rheoliadau Diogelu Data Cyffredinol (GDPR).

Gofynnwn i chi ddarllen y ddogfen a'i chadw er gwybodaeth. Llofnodwch a dyddiwch y "Cytundeb Hysbysiad Preifatrwydd" terfynol ar ddiwedd y ddogfen a'i ddychwelyd i'r ysgol er mwyn i ni gofnodi eich bod wedi rhoi caniatâd am y data rydym yn ei gadw yn yr ysgol.

Mae'r categorïau o wybodaeth am rieni rydym yn eu casglu, eu prosesu, eu cadw a'u rhannu'n cynnwys:

- gwybodaeth bersonol (megis enw, cyfeiriad, rhif ffôn)
- diogelu (CCTV)

Pam rydym yn casglu ac yn defnyddio'r wybodaeth hon

Rydym yn defnyddio data rhieni i ganiatáu i ni rannu'r canlynol â chi:

- cyrhaeddiad disgyblion
- ymddygiad disgyblion
- lles disgyblion
- systemau'r ysgol (megis arlwyo)
- diogelu

Y sail gyfreithlon sydd gennym ar gyfer prosesu'r wybodaeth hon

Rydym yn sicrhau bod y sail rydym yn ei defnyddio ar gyfer casglu a phrosesu data personol a sensitif yn gyfreithlon o dan Erthygl 6 ac Erthygl 9 y GDPR o 25 Mai 2018.
Erthygl 6, GDPR

Contract: mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer contract sydd gennych â'r unigolyn, neu oherwydd ei fod wedi gofyn i chi gymryd camau penodol cyn ymrwymo i gontract.

Rhwymedigaeth Gyfreithiol: mae'r prosesu'n angenrheidiol i chi gydymffurfio â'r gyfraith (heb gynnwys rhwymedigaethau cytundebol).

Cysylltiadau hanfodol: mae'r prosesu'n angenrheidiol ar gyfer diogelu bywyd rhywun.

Tasg Gyhoeddus: mae'r prosesu'n angenrheidiol i chi berfformio tasg er budd y cyhoedd neu ar gyfer eich gweithrediadau swyddogol, ac mae gan y dasg neu'r gweithrediad sail gyfreithiol glir.

Erthygl 9, GDPR
Gan fod data categori arbennig yn fwy sensitif, mae angen mwy o ddiogelwch arno. Er enghraifft, y manylion canlynol am unigolyn:

- hil;
- tarddiad ethnig;
- gwleidyddiaeth;
- crefydd;
- aelodaeth o undeb llafur;
- geneteg;
- biometreg (lle caiff ei defnyddio at ddibenion adnabod);
- iechyd;
- bywyd rhywiol; neu
- dueddfryd rhywiol.

Casglu'r wybodaeth hon

Er bod y mwyafrif o'r wybodaeth rydych yn ei darparu i ni'n orfodol, darperir peth ohoni'n wirfoddol. Er mwyn cydymffurfio â deddfwriaeth diogelu data, byddwn yn rhoi gwybod i chi a oes angen i chi ddarparu data rhieniol penodol i ni neu a oes gennych ddewis yn hyn o beth.

Storio'r wybodaeth hon

Rydym yn cadw data rhieniol am gyhyd ag y mae angen. Bydd hyn yn dibynnu ar y math o ddata rydym yn ei gadw.

Y bobl rydym yn rhannu eich gwybodaeth â hwy

Rydym yn rhannu'r wybodaeth hon yn rheolaidd â:

- Capita Sims (System Rheoli Gwybodaeth)

Rydym hefyd yn rhannu data ag unrhyw drydydd parti i'ch cefnogi fel rhiant yn ystod eich cyfnod yn yr ysgol:

- Data ar gyfer system heb arian parod (ParentPay)
- Data ar gyfer system arlwyo (Nationwide)
- Data ar gyfer gwasanaeth negeseuon testun (Teachers2parents)

Efallai y bydd achlysuron eraill pan fyddwn yn rhannu data â thrydydd parti:

- Ymweliadau addysgol (cwmnïau teithio/hedfan)
- Cystadlaethau allanol (Rhaglen Ymddiriedolaeth Gymunedol yr Elyrch)

Sylwer, bod rhai o'r trydydd partïon hyn yn berthnasol i chi lle bo'n briodol yn unig. Byddwn yn sicrhau bod Cytundebau Rhannu Data ar waith ar gyfer pob trydydd parti. Byddwn hefyd yn rhi gwybod i chi am unrhyw drydydd partïon ychwanegol pan fyddant yn codi.

Prosesir yr holl ddata personol rydym yn ei brosesu gan ein staff yn y Deyrnas Unedig. At ddibenion lletya TG a chynnal a chadw, cedwir yr wybodaeth hon ar weinyddion yn yr Undeb Ewropeaidd.

Ceisio mynediad at eich data personol

Yn unol â deddfwriaeth diogelu data, mae gennych yr hawl i ofyn i gael gweld yr wybodaeth sydd gennym amdanoch. I wneud cais am eich gwybodaeth bersonol, cysylltwch â'r swyddfa.

Mae gennych hefyd yr hawl i:

- wrthwynebu prosesu data personol sy'n debygol o achosi difrod neu niwed neu sydd yn ei achosi
- atal prosesu at ddibenion marchnata uniongyrchol
- gwrthwynebu i wneud penderfyniadau mewn modd awtomataidd
- mewn amgylchiadau penodol, cywiro, rhwystro, dileu neu gael gwared ar ddata personol anghywir; a
- hawlio iawndal am ddifrod a achosir oherwydd torri'r Rheoliadau Diogelu Data

Os ydych am dynnu'ch caniatâd i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn ôl neu am ddiwygio unrhyw wybodaeth, gallwch roi gwybod i'r ysgol ar unrhyw adeg, a fydd yn ystyried unrhyw geisiadau.

Mae peth gwybodaeth y mae'n rhaid i ni ei chadw yn rhinwedd ein gofynion cyfreithiol ac os ydych yn methu darparu'r wybodaeth hon neu ddarparu gwybodaeth gywir gallech wynebu achosion cyfreithiol.

Os ar unrhyw adeg y credwch fod yr wybodaeth rydym yn ei phrosesu amdanoch chi'n anghywir, gallwch ofyn i weld yr wybodaeth hon ac mae gennych yr hawl i'w chael wedi'i chywiro neu ei dileu. Os ydych am gwyno am sut rydym wedi trafod eich data personol, gallwch gysylltu â'r swyddfa a fydd yn ymchwilio i'r mater.

Rhagor o wybodaeth

Os ydych am drafod unrhyw beth yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn , cysylltwch â:

Kathryn Penhale (Pennaeth gweithredol)
Ysgol Gymraeg Blaendulais

Ysgol Gymraeg Blaendulais

Hysbysiad Preifatrwydd - Rhiant neu warcheidwad

Cytundeb

Lle mae'r gwaith prosesu data o ganlyniad i rwymedigaeth gyfreithiol (h.y. deddfwriaeth addysg etc.)?

Drwy lofnodi'r ffurflen hon, rwy'n cytuno i'r wybodaeth bersonol sydd yn y ddogfen hon gael ei defnyddio gan YGG Blaendulais mewn perthynas â darpariaethau y mae rhwymedigaeth gyfreithiol ar YGG Blaendulais i'w casglu a'u prosesu.

YGG Blaendulais yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol y cyfeirir ati yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Defnyddir eich gwybodaeth wrth ymarfer ein hawdurdod swyddogol yn unol â statud ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod gofyn i ni neu y caniateir i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith. Byddwn yn rhannu eich data'n ddiogel ag unrhyw drydydd parti dan ein cytundeb rhannu data ag unrhyw drydydd parti a nodir yn y ddogfen hon. Ni fydd yr wybodaeth hon yn cael ei chadw gan YGG Blaendulais am gyfnod hwy na'r angen.
Os ydych yn dymuno tynnu'ch caniatâd i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn ôl, gallwch roi gwybod i YGG Blaendulais ar unrhyw adeg. Sylwer os ydych yn dymuno tynnu'ch caniatâd yn ôl, ni fydd YGG Blaendulais yn gallu darparu'r gwasanaethau y mae'r cytundeb hwn yn gysylltiedig â hwy.

Gall methu darparu gwybodaeth ddilys effeithio ar natur y gwasanaethau y gall YGG Blaendulais ymgymryd â nhw.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau o ran defnydd o'ch data personol, rydych am ei weld neu wneud cwyn am y ffordd y caiff ei gasglu, cysylltwch â'r swyddfa.

Lle mae'r gwaith prosesu data yn seiliedig ar dasg a wneir er budd y cyhoedd (darparu addysg a materion cysylltiedig eraill)

Drwy lofnodi'r ffurflen hon, rwy'n cytuno i'r wybodaeth bersonol sydd ynddi gael ei defnyddio gan YGG Blaendulais.

YGG Blaendulais yw'r rheolwr data ar gyfer gwybodaeth bersonol rydych yn ei darparu ar y ffurflen hon. Defnyddir eich gwybodaeth wrth i ni arfer ein hawdurdod swyddogol (a ragnodir gan statud) ac ni chaiff ei defnyddio at unrhyw ddiben arall. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod gofyn i ni neu y caniateir i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith. Byddwn yn rhannu eich data'n ddiogel ag unrhyw drydydd parti dan ein cytundeb rhannu data ag unrhyw drydydd parti a nodir yn y ddogfen hon. Ni fydd yr wybodaeth hon yn cael ei chadw gan YGG Blaendulais am gyfnod hwy na'r angen.

Os ydych yn dymuno tynnu'ch caniatâd i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn ôl, gallwch roi gwybod i YGG Blaendulais ar unrhyw adeg.
Os bydd gennych unrhyw ymholiadau o ran y defnydd o'ch data personol, neu am wneud cwyn am y ffordd y caiff ei gasglu, cysylltwch â Kathryn Penhale.

Lle mae'r gwaith prosesu data o ganlyniad i gytundeb (h.y. Darpariaeth clwb ar ôl ysgol, clwb chwaraeon, aelodaeth llyfrgell etc)?
Drwy lofnodi'r ffurflen hon, rwy'n cytuno i'r wybodaeth bersonol sydd ynddi gael ei defnyddio gan YGG Blaendulais.

YGG Blaendulais yw'r rheolwr data ar gyfer yr wybodaeth bersonol y cyfeirir ati yn yr hysbysiad preifatrwydd hwn. Cesglir yr wybodaeth at ddibenion diogelu, dysgu ac addysgu, cyrhaeddiad, system heb arian, system arlwyo ac ar gyfer gwasanaeth negeseuon testun i staff. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod gofyn i ni neu y caniateir i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith. Byddwn yn rhannu eich data'n ddiogel ag unrhyw drydydd parti dan ein cytundeb rhannu data ag unrhyw drydydd parti a nodir yn y ddogfen hon. Ni fydd yr wybodaeth hon yn cael ei chadw gan YGG Blaendulais am gyfnod hwy na'r angen.

Os ydych yn dymuno tynnu'ch caniatâd i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn ôl, gallwch roi gwybod i YGG Blaendulais ar unrhyw adeg. Sylwer os ydych yn dymuno tynnu'ch caniatâd yn ôl, ni fydd YGG Blaendulais yn gallu darparu'r gwasanaethau y mae'r cytundeb hwn yn gysylltiedig â hwy.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau o ran y defnydd o'ch data personol, neu am wneud cwyn am y ffordd y caiff ei gasglu, cysylltwch â Kathryn Penhale.

Lle mae'r gwaith prosesu data yn seiliedig ar yr unigolyn yn rhoi caniatâd (arolygon barn, ymarferion ymgynghori a mathau eraill o ddulliau casglu data)
Drwy lofnodi'r ffurflen hon, rwy'n cytuno i'r wybodaeth bersonol sydd ynddi gael ei defnyddio gan YGG Blaendulais.

YGG Blaendulais yw'r rheolwr data ar gyfer gwybodaeth bersonol rydych yn ei darparu ar y ffurflen hon. Cesglir yr wybodaeth at ddibenion cyflogaeth, recriwtio a chadw, talu cyflog, diogelu, dysgu ac addysgu, mynediad at Hwb, mynediad at adnoddau cwmwl, system heb arian, system arlwyo ac ar gyfer y gwasanaeth negeseuon testun i'r staff. Ni fyddwn yn rhannu'ch data ag unrhyw drydydd parti oni bai fod gofyn i ni neu y caniateir i ni wneud hynny yn ôl y gyfraith. Byddwn yn rhannu eich data'n ddiogel ag unrhyw drydydd parti dan ein cytundeb rhannu data ag unrhyw drydydd parti a nodir yn y ddogfen hon. Ni fydd yr wybodaeth hon yn cael ei chadw gan YGG Blaendulais am gyfnod hwy na'r angen.

Os ydych yn dymuno tynnu'ch caniatâd i ddefnyddio'r wybodaeth hon yn ôl, gallwch roi gwybod i YGG Blaendulais ar unrhyw adeg.

Os bydd gennych unrhyw ymholiadau o ran y defnydd o'ch data personol, neu am wneud cwyn am y ffordd y caiff ei gasglu, cysylltwch â Kathryn Penhale.

Enw'r rhiant/gwarcheidwad: ……

Enw'r plentyn: ……..Dyddiad geni'r plentyn:

……..

Llofnod rhiant: ……..

Dyddiad: ……